

YDYCH CHI'N ANSICR BETH I WNEUD AR ÔL GADAEL YSGOL?

Dydych ddim ar eich pen eich hun.

Mae yna lot o wybodaeth ar ein gwefan i'ch helpu chi i wneud dewisiadau am y dyfodol, a gallwch chi weld pobl fyddar yn meistroli pethau mewn gwahanol swyddi.

Felly, gyrrwr uber, meddyg, ffotograffydd – beth ydych chi am fod?

www.ndcs.org.uk/deafworkseverywhere
[@deaf_works_everywhere](https://www.instagram.com/deaf_works_everywhere)

PA SWYDDI ALLA I WNEUD?

Lot o swyddi! Gyda'r gefnogaeth gywir gall pobl fyddar wneud bron unrhyw swydd. Felly peidiwch â gadael i'ch byddardod eich dal chi yn ôl.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779

BLE I DDECHRAU?

Gall gwneud penderfyniadau am y dyfodol fod yn her fawr, ond mae yna lot o wahanol bethau allwch chi eu gwneud. Gallwch chi:

- fynd i'r chweched dosbarth neu goleg
- wneud prentisiaeth, hyfforddeiaeth neu interniaeth gyda chymorth
- fynd i'r brifysgol
- gael swydd llawn amser neu ran amser neu brofiad gwaith.
- gwirfoddoli

SUT GALLA I BENDERFYNU?

- Gofynnwch am gyngor gan eich teulu, oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo, neu eich ffrindiau.
- Gofynnwch gwestiynau. Siaradwch â phobl sydd wedi gwneud yr un pethau neu sydd mewn swydd byddech chi'n hoffi ei wneud a gofynnwch iddyn nhw am eu profiadau. Neu siaradwch â chynghorwr gyrfaedd.
- Gwnewch dipyn o ymchwil. Casglwch wybodaeth am ysgolion a cholegau sy'n agos i chi. Pa gyrсияu sydd ar gael yna? A allwch chi ymweld â nhw? Casglwch fwy o wybodaeth am y swyddi byddech chi'n hoffi eu gwneud.
- Ysgrifennwch restr. Os ydych chi dal yn ffeindio hi'n anodd, ysgrifennwch restr 'o blaid' ac 'yn erbyn' ar gyfer bob opsiwn.



DEAF WORKS
EVERYWHERE



DEAF WORKS
EVERYWHERE

DEAF WORKS EVERYWHERE

A OES YNA UNRHYW GYLLID AR GAEL I FY HELPŪ I?

A oes angen cefnogaeth arnoch chi yn y gwaith i gyfathrebu? Gall **Mynediad at Waith** helpu talu am gostau eich cyflogwr, ond mae'n rhaid i chi wneud cais.

Os ydych chi'n bwriadu mynd i'r brifysgol, gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi gwneud cais am **Lwfans Myfyrwyr Anabl** (DSA). Mae'n wahanol i fenthyciad a does dim rhaid i dalu yn ôl. Gallwch chi ei ddefnyddio i dalu am bethau fel offer a chymerwyr nodiadau.



BETH YW FY HAWLIAU YN Y GWAITH?

Mae yna lawer o bethau syml gall eich gwaith eu gwneud i'ch helpu chi. Fel defnyddio e-bost yn lle'r ffôn, neu sicrhau eich bod chi'n gallu darllen gwefusau mewn cyfarfodydd. Gelwir y rhain yn 'addasiadau rhesymol' ac mae'n rhaid i'ch gwaith eu gwneud yn ôl y gyfraith.



MWY O WYBODAETH I RIENI, GOFALWYR AC ATHRAWON

Dwedwch wrth eich athrawon i ymweld â www.ndcs.org.uk/post14.

Gofynnwch i'ch rhieni neu ofalwr i ymweld â www.ndcs.org.uk/yourchildsfuture.



A OES GENNYCH UNRHYW GWESTIYNAU?

Mae ein Llinell Gymorth ar gael i'ch helpu chi.

- ☎ 0808 800 8880
- ☎ 07860 022888 (testun)
- ✉ helpline@ndcs.org.uk
- 🌐 www.ndcs.org.uk/livechat

Dwedwch wrth eich athrawon i ymweld â www.ndcs.org.uk/post14.

Gofynnwch i'ch rhiant neu ofalwr i ymweld â www.ndcs.org.uk/yourchildsfuture.